Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Llangadog**
**Neuadd Gymunedol Llangadog**
**Llangadog**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA19 9BR**

**Dyddiad yr arolygiad: 6 Chwefror 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**
**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Llangadog yn neuadd gymunedol y pentref. Sefydlwyd y Cylch dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ac mae'r plant sy'n mynychu yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy a hanner i bedair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 11:30 y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd 11 plentyn tair oed ar y gofrestr. Daw'r mwyafrif o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pedwar aelod o staff. Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd bresennol ym Medi 2010.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn yn Chwefror 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Ebrill 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu;
- mae'r plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- darperir ystod eang o weithgareddau diddorol;
- caiff y plant ofal o ansawdd da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol;
- mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles plant; ac
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- arweinyddiaeth effeithiol y prif ymarferydd;
- ymrwymiad yr ymarferwyr i ddatblygiad addysgol a phersonol y plant;
- gwaith tîm da;
- tystiolaeth o gydweithio llwyddiannus sy'n sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth;
- cefnogaeth dda'r pwyllgor rheoli a'r rhieni; a'r
- cydweithio agos gyda'r ysgol gynradd a'r gymuned.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 gryfhau medrau gwrando a llafar y plant;

A2 gryfhau cynllunio tasgau i ymestyn dysgu'r plant yn gyson, yn arbennig y plant mwy galluog;

A3 addasu trefniadaeth y sesiwn i gynnig gwell cydbwysedd rhwng y gweithgareddau;

A4 ddatblygu medrau hunan arfarnu'r ymarferwyr ymhellach; a

A5 diweddaru'r pecyn gwybodaeth i rieni.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson mewn perthynas â'u man cychwyn. Gweithiant yn galed gan gaffael gwybodaeth a medrau priodol ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd cynyddol o'u medrau meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn eu gwaith. Mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n gyson. Mae rhai yn dangos gafael sicr ar ystod o eirfa ac yn hyderus i gynnal sgwrs syml. Er hyn, ymatebion byr a geir gan y rhan fwyaf o'r plant. Mae medrau gwrando a chanolbwyntio'r plant yn fwy anwastad gyda'r mwyafrif yn wrandawyr da. Mae gan y plant wybodaeth gynyddol o synau rhai o brif lythrennau'r wyddor ac amlygant fwynhad wrth edrych ar a thrin llyfrau. Gwyddant nifer dda o ganeuon a rhigymau ac maent yn eu hailadrodd yn gywir. Defnyddiant offer marcio yn bwrpasol mewn ystod o gyfryngau, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o rai o swyddogaethau ysgrifennu.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd priodol o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae bron pob un yn cyfrif yn gywir i ddeg ac yn defnyddio iaith fathemategol, megis mawr a bach, yn gywir mewn sefyllfaoedd ymarferol. Gallant greu a dilyn patrwm yn gywir. Maent yn adnabod siapiau sylfaenol ac yn deall bod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Mae llawer o'r plant yn defnyddio eu medrau TGCh yn effeithiol i gwblhau gemau rhif ac i recordio eu hymatebion llafar. Defnyddiant y llygoden yn hyderus i symud gwrthrychau ar y sgrin.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant ddefnydd priodol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau mathemategol, corfforol a chreadigol. Dangosant fedrau llawdriniol da wrth ddefnyddio offer torri, peintio a gludo.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, gan gynnwys gweithgareddau symud yn y neuadd. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd.

Mae pob un o'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r oedolion, ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae'r mwyafrif yn dangos agweddau da at ddysgu ac yn awyddus i

ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae'r mwyafrif yn dyfalbarhau gyda'r tasgau a osodir, yn cyd-chwarae gyda'i gilydd yn hwylus ac yn ymddwyn yn dda.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau megis cymryd rhan mewn cyngherddau, gwasanaeth diolchgarwch ac ymweliadau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n briodol i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Gwneir defnydd pwrpasol o fframweithiau cynllunio i ddarparu ystod o weithgareddau addas ar draws y meysydd dysgu. Seilir y gweithgareddau ar themâu sy'n addas i ystod oed y plant.

Mae'r cynllunio yn cynnig cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd, a TGCh y plant trwy'r ddarpariaeth. Darperir ystod o weithgareddau ac adnoddau pwrpasol ym mhob ardal ddysgu o amgylch yr ystafell. Nid yw'r tasgau ffocws wedi strwythuro'n ddigonol bob amser i ymestyn medrau'r plant yn gynyddol, yn enwedig medrau'r plant mwy galluog.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n gyson gyda'r plant ac yn cyflwyno geirfa newydd. Mae'r sylw i gyflwyno patrymau brawddegol sylfaenol yn rheolaidd yn fwy anwastad. Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a choginio bwydydd Cymreig. Darperir cyfleoedd hefyd i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy ddathliadau pwrpasol megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r cyfleoedd i'r plant blannu a thyfu planhigion, ymweld â chanolfan natur, ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu yn datblygu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Gwneir defnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i gynorthwyo'r dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cynnig cymorth cyson i'r plant. Ymunant yn egnïol yn y gweithgareddau a rheolir ymddygiad yn effeithiol. Ceir rhediad esmwyth i drefn y sesiynau. Er hyn, nid oes cydbwysedd a chyflymdra digonol i sicrhau bod y plant yn ymwneud ag ystod o weithgareddau ar hyd y sesiwn.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddir gweithdrefnau addas i asesu a chofnodi eu cynnydd. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau. Cwblheir 'cofnod o gyflawniad' ar draws y chwe maes dysgu. Caiff rhieni eu hysbysu am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau a thrwy adroddiad ysgrifenedig addas. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth priodol i'r ysgol gynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Rhydd sylw da i hyrwyddo eu dealltwriaeth o bwysigrwydd golchi dwylo, trin offer yn ddiogel ac ymddwyn yn gyfrifol. Darperir byrbrydau iach. Mae trefniadau sefydlu'n sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen, ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir, yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau dyddiol. Mae'r profiadau, megis cynnig gweddi cyn byrbryd, dathliadau diolchgarwch a gwaith ar stori'r Nadolig, yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol y plant yn effeithiol. Mae'r cyfleoedd i blant berfformio mewn cyngherddau bach ar gyfer y rhieni ac aelodau'r gymuned yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad cymdeithasol. Hyrwyddir eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu rhai llai ffodus yn briodol trwy gasglu arian at achosion da.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i'r holl blant.

Mae gan y lleoliad nifer briodol o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol. Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig cyfleusterau priodol. Er hyn, nid oes lle chwarae pwrpasol y tu allan i'r plant, ond gwneir defnydd rheolaidd o'r neuadd ac o gyfleusterau'r ysgol gynradd. Mae'r arddangosfeydd o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd deniadol. Ceir adnoddau digonol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae cyfraniad ymwelwyr o'r

gymuned, megis swyddogion Comisiwn Coedwigaeth Cymru, nyrs, plismon a swyddogion y frigâd dan, yn cyfoethogi profiadau'r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain yn effeithiol gan arweinydd cydwybodol. Mae'r ymarferwyr i gyd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda fel tîm. Llwyddir i greu amgylchfyd trefnus a phwrpasol i'r plant. Mae polisïau addas yn weithredol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnig cefnogaeth a chymorth cyson sy'n hyrwyddo datblygiad pellach y lleoliad. Mae gan yr aelodau ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sy'n sail i gynllunio pellach. Derbynnir gwybodaeth gan y prif ymarferydd yn gyson ac mae perthynas waith agos rhwng y prif ymarferydd a'r person cofrestredig.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd leol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o brif gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant. Maent yn cyd-drafod yn rheolaidd ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach. Mae'r dulliau a ddefnyddir i arfarnu'r ddarpariaeth yn parhau i ddatblygu ac yn fwy anffurfiol eu natur.

Caiff y ddarpariaeth ei fonitro'n gyson gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Cytunir ar agweddau addas i gael sylw a rhoddir strategaethau priodol ar waith. Gwelir ffocws da ar hybu medrau'r plant ar draws y meysydd dysgu. Fel rhan o'r swydd, mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn ymwelydd rheolaidd ac yn gwneud rhai arsylwadau ar agweddau o'r ddarpariaeth.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu a baratowyd gan yr arweinydd, y pwyllgor rheoli ac athrawes gyswllt yr awdurdod lleol yn cynnig darlun cytbwys. Mae'r cynllun gwella sydd wedi deillio o hyn yn adnabod meysydd addas ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad. Ceisir barn rhieni/gofalwyr a thrafodir agweddau ar y ddarpariaeth yn rheolaidd gyda'r athrawes gyswllt a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin.

Ceir trefniadau priodol i arfarnu gwaith yr ymarferwyr ac i gytuno ar ddatblygiad proffesiynol pellach. Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar ddatblygiad a gofal plant a gwnânt ddefnydd addas o'r hyfforddiant a geir. Mae'r trafodaethau rheolaidd gydag athrawon yr ysgol gynradd yn ychwanegu at eu

dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen. Ceir rhai cyfleoedd i'r ymarferwyr gyd-drafod a rhannu syniadau gydag ymarferwyr a lleoliadau eraill yn ystod dyddiau hyfforddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nodau ac amcanion clir sy'n cael eu rhannu gan yr holl bartneriaid. Mae perthynas agos rhwng y lleoliad a'r rhieni/ gofalwyr a chadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Darperir gwybodaeth berthnasol i rieni ond nid yw'r Pecyn Gwybodaeth wedi'i ddiweddaru'n llwyr.

Mae'r bartneriaeth agos gyda'r person cofrestredig, y pwyllgor rheoli, yr athrawes gyswllt a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf gyda'r gymuned sy'n cefnogi dysgu'r plant. Gwneir defnydd effeithiol o fedrau ac arbenigedd ymwelwyr o'r gymuned, megis ieithydd ac artist, i gyfrannu at y cwricwlwm. Gwneir defnydd llwyddiannus o'r cysylltiadau gydag asiantaethau a mudiadau lleol i gefnogi'r ymgyrchon i godi arian.

Sefydlwyd cysylltiadau da gyda'r ysgol gynradd leol ac mae cynlluniau drafft mewn lle i greu strwythur fydd yn sail i gydweithio pellach. Mae'r gweithdrefnau trosglwyddo yn cynnwys ymweliadau gan staff yr ysgol. Mae'r ymarferwyr yn elwa o'u hymweliadau â'r ysgol a'r cyswllt agos gydag athrawon y Cyfnod Sylfaen. Mae'r bartneriaeth agos gyda'r Cylch Ti a Fi o fudd i'r plant a'r ymarferwyr.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd da o'u hamser a'u profiad wrth weithio'n effeithiol gyda'r plant mewn ystod o weithgareddau. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ac mae eu hargaeledd yn hybu annibyniaeth y plant. Cant eu defnyddio'n adeiladol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu yn ôl anghenion y lleoliad. Dilynir trefniadau cyllidebu systematig. Gwneir defnydd rheolaidd o fentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus ac yn gwbl gartrefol yn y lleoliad. Maent i gyd yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Mewn sgwrs gallant nodi eu hoff weithgareddau a'u diddordebau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **CymdeithasGenedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2013. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |